Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Arolygiad Gwerthuso Perfformiad

## Gwasanaethau Oedolion

## Cyngor Abertawe

Ebrill 2024

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2024 WG50211 ISBN Digidol 978-1-83625-263-4

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o wasanaethau oedolion yng Nghyngor Abertawe rhwng 29 Ebrill a 3 Mai 2024. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym yn ystyried y safonau ansawdd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r llinellau ymholi allweddol. Rydym yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014):

### Pobl - llais a rheolaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddo?

Sut mae'r gweithwyr proffesiynol yn sicrhau bod pobl, gan gynnwys eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn cael eu trin yn agored ac yn onest a'u bod yn deall y penderfyniadau a wneir?

### Atal

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf, ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

I ba raddau y mae oedolion yn cael gofal a/neu gymorth mewn modd amserol?

Sut y caiff rhestrau aros eu rheoli, er mwyn lleihau'r effaith ar y bobl hyn a'u gofalwyr i'r eithaf?

### Llesiant

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

I ba raddau y mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw’n annibynnol cyhyd â phosibl?

**Partneriaeth**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

I ba raddau y mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at y broses o ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal?

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu pobl a'u hamddiffyn. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- Gwerthuso profiad oedolion ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad
- Gwerthuso profiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni drwy eu cysylltiad â gwasanaethau
- Tystiolaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid o brofiadau diweddar a chynlluniau i ddatblygu a gwella gwasanaethau
- Ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risgiau wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol

## 1. Crynodeb

**1.1** Fel llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r cyd-destun gwasanaethau oedolion presennol yn cynnwys lefelau cyson uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl, yn ychwanegol at heriau o ran cadernid y gweithlu a'r pwysau cyllidebol a wynebir gan yr awdurdod lleol. Mae'r arweinwyr yn deall anghenion y bobl yn eu hardal ac yn cynnig cyfeiriad strategol da i ddiwallu'r anghenion hynny a'r galw am wasanaeth. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau mewn gwasanaethau oedolion, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi rhaglen drawsnewid ar waith. Mae’r awdurdod lleol wrthi'n gweithio ar y rhaglen a sefydlwyd yn 2023/2024 i drawsnewid gwasanaethau oedolion. Mae amcanion cyffredinol y rhaglen hon yn cyd-fynd â chynllun corfforaethol 2023-2028.

**1.2** Mae'r rhaglen drawsnewid yn seiliedig ar dair thema sylfaenol, sef atal a chymorth cynnar, hyrwyddo a galluogi annibyniaeth, a blaenoriaethu adnoddau (rheoli galw). Mae'r rhaglen drawsnewid wedi sicrhau llwyddiant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys datblygu modelau cyflawni a'u rhoi ar waith mewn gwasanaethau atal, pennu ffocws o'r newydd ar gyfer y strategaeth technoleg gynorthwyol, datblygu'r contract gofal cartref a gomisiynwyd yn allanol, a chynnal adolygiad cynhwysfawr o strwythur y timau Asesu a Rheoli Gofal.

**1.3** Diben adolygu ac ailstrwythuro’r timau Asesu a Rheoli Gofal yw gwella'r gwasanaethau a ddarperir drwy ailddosbarthu cyfrifoldebau, y disgwylir iddo wella effeithlonrwydd. Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr yn deall y canlyniadau y mae'r broses ailstrwythuro yn anelu at eu cyflawni, a chynhaliodd yr awdurdod lleol ymarfer ymgynghori cadarn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymarferwyr o'r farn na chafodd eu safbwyntiau eu hystyried yn ddigonol yn ystod yr ymgynghoriad, gan effeithio ar forâl. Bydd angen i'r arweinwyr fynd ati i gydweithio ac ymgysylltu â'r staff er mwyn rhoi sicrwydd iddynt tra bydd y dulliau gweithredu newydd yn cael eu rhoi ar waith.

**1.4** Er gwaethaf yr heriau a gydnabuwyd, mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth glir o sefydlogrwydd y farchnad yn ei ardal ac anghenion ei boblogaeth. Mae wedi rhoi cynlluniau strategol ar waith mewn ymateb i'r anghenion a nodwyd. Gwnaed hyn drwy weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, partneriaid perthnasol eraill a dinasyddion i ddatblygu gwasanaethau.

**1.5** Dywedodd yr awdurdod lleol, darparwyr a phartneriaid yn y trydydd sector wrthym am heriau'r pwysau cynyddol ar gyllidebau a'r anhawster a wynebir wrth gynllunio gwasanaethau atal hanfodol gyda chyllid grant byrdymor.

Dywedodd y staff wrthym hefyd am yr heriau a wynebir wrth gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol oherwydd adnoddau.

**1.6** Mae'r dirwedd ariannol hon yn seiliedig ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol cryf, ond mae arweinwyr, ymarferwyr, darparwyr gwasanaethau, partneriaid a phobl yn ymwybodol iawn o'r realiti ariannol ac maent wedi lleisio eu barn am yr effaith andwyol y mae'n ei chael ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r angen i nodi arbedion effeithlonrwydd pellach ar draws gwasanaethau yn yr hinsawdd sydd ohoni yn creu her aruthrol. Mae'n hollbwysig bod yr awdurdod lleol yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd ac yn dryloyw â phob rhanddeiliad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb a helpu i leddfu unrhyw bryderon diangen.

**1.7** Er bod llawer o bobl yn wynebu oedi cyn cael eu hasesu am ofal a chymorth, pan gaiff y gofal a'r cymorth hwn ei ddarparu, mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal yn cefnogi dulliau creadigol o hybu llesiant y bobl.  Gwelwyd bod llesiant rhai pobl yn dirywio yn ystod y cyfnod hwn o aros. Fodd bynnag, roedd y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn dangos bod pobl yn cael eu blaenoriaethu'n briodol ar sail eu hanghenion a'u risg.

**1.8** Mae heriau parhaus o ran cyfraddau salwch staff, sydd wedi cael effaith amrywiol ar dimau. Derbynnir fod hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at amseroedd aros ar gyfer asesiadau ac adolygiadau.

**1.9** Mae gan yr awdurdod lleol weithlu ymrwymedig. Nododd ymarferwyr fod yr arweinwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Nododd 88% o'r ymatebwyr i'n harolwg staff dienw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan eu rheolwyr, a nododd 72% e bod yn gallu ymdopi â'u llwythi gwaith.

**1.10** Mae cyfraddau recriwtio a chadw ymarferwyr gofal cymdeithasol yn her genedlaethol ledled Cymru. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio'n galed ar strategaethau i helpu i recriwtio a chadw staff yn barhaus.  Mae'r rhain yn cynnwys ymgyrchoedd recriwtio, adnoddau llesiant ar gyfer timau o staff a rhaglen brentisiaeth.

**1.11** Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cadarn i gydgynhyrchu. Mae'r ymrwymiad hwn yn strategol ac yn weithredol, ac mae fframwaith cydgynhyrchu, siarter a grwpiau llywodraethu ar waith. Mae'r ffocws ar gydgynhyrchu, a gweithio mewn partneriaeth â phobl a chymunedau, yn dangos ymarfer cadarnhaol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf 2014.

## Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau allweddol a'n tystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

### 2. Pobl - Llais a Dewis

### Cryfderau

**2.1** Mae'r model cyfathrebu cydweithredol yn rhan o ethos yr awdurdod lleol, sy'n grymuso ymarferwyr i gefnogi unigolion i nodi eu cryfderau a'u rhwydweithiau eu hunain ac adeiladu arnynt. Mae'r model hwn, sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi'i ddeall yn dda ac yn cael ei roi ar waith yn effeithiol drwy gynlluniau a hyfforddiant strategol, ac roedd y cofnodion gofal cymdeithasol yr edrychwyd arnynt, y cyfweliadau â'r staff a'r arolygon staff, a'r trafodaethau â'r bobl yn cadarnhau hyn. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

**2.2** Mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau'r bobl, yn amlinellu nodau personol ac yn nodi'r dulliau cymorth a ffefrir. Gwelwyd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Gwelsom fywgraffiadau, a oedd yn dangos 'yr hyn sy'n bwysig' i'r person. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

**2.3** Drwy ddadansoddi'r cofnodion gofal cymdeithasol, gwelsom fod pobl, ar y cyfan, yn cael eu trin fel arbenigwyr ar eu hanghenion eu hunain a, lle bynnag y bo'n bosibl, yn cael eu hannog i leisio eu barn am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Defnyddir dulliau fel cwestiynau graddio i feincnodi a deall profiadau bywyd, nodau a chanlyniadau dymunol pobl.

**2.4** Roedd pob asesiad yr edrychwyd arno yn cyfeirio at y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Ceir llinell ffôn benodol i'r bobl hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**2.5** Cynigir asesiadau gofalwyr mewn modd priodol. Dywedodd gofalwyr wrthym eu bod wedi cael budd mawr o asesiadau gofalwyr a'r cymorth a roddwyd. Clywsom am amrywiaeth eang o gymorth ymarferol arloesol i hybu llesiant gofalwyr, gan gynnwys cwnsela, grantiau, taliadau uniongyrchol a threfniadau seibiant byrdymor. Dywedodd partneriaid wrthym fod yr awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr ar ganlyniadau wedi'u cydgynhyrchu.

**2.6** Mae'r gweithlu'n cael budd o sefydliad sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad proffesiynol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff diwylliant o ddysgu ei gyfleu a'i ymgorffori'n barhaus ym mhob system ac ymarfer. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ymarfer myfyriol, hyfforddi, adnoddau ar-lein, darpariaeth ar gyfer llesiant, a chyfle i ymgymryd ag astudiaeth academaidd achrededig bellach sy'n arwain at gymwysterau. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod diwylliant o ddysgu wedi'i ymgorffori a bod yr awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad proffesiynol. Gwelwyd tystiolaeth o'r diwylliant o ddysgu ar ffurf llawlyfr ymarfer staff, sy'n cynnig map ffordd i weithwyr cymdeithasol proffesiynol drwy amlinellu'r systemau a'r prosesau sydd sail i ymarfer. Mae'r llawlyfr yn gyfuniad o arferion da, gweithdrefnau safonol a llwybrau gofal effeithiol. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

***2.7*** Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau oedolion yn deall pwysigrwydd eiriolaeth ffurfiol ac anffurfiol. Caiff ei hystyried yn glir a'i chynnig yn gyson, a manteisir yn briodol arni. Dywedodd darparwyr wrthym,*"Swansea works co-productively with Your Voice Advocacy to improve methods of communication with our users and the quality of their experience in using services. This includes the conversion of documents and communications into easy-read format and regularly engaging with our users on how well service-providers are communicating"*

***2.8*** Mae pobl a gweithwyr proffesiynol yn deall y gwasanaeth taliadau uniongyrchol sefydledig. Caiff ei ddefnyddio mewn ffordd greadigol i gefnogi canlyniadau llesiant pobl. Clywsom am enghreifftiau o ddefnydd creadigol o daliadau uniongyrchol, gan gynnwys cyfuno taliadau uniongyrchol o fewn gweithgorau wedi'u cydgynhyrchu lle mae pobl yn gweithio i gyfuno eu taliadau er mwyn cyflawni nodau a rennir penodol.

**2.9** Yng nghofnodion goruchwylio'r staff, gwelsom ffocws cyson ar lesiant y staff, datblygiad personol a hyfforddiant. Dywedodd 88% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer.

## Meysydd i'w Gwella

**2.10** Mae'r bobl weithiau'n cael eu cefnogi drwy system ar ddyletswydd. Gall hyn fod yn heriol i bobl gan nad yw eu hamgylchiadau'n cael eu goruchwylio'n ddigonol, nad ydynt yn cael cymorth parhaus a bod yn rhaid iddynt ailadrodd eu stori. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod y system cymorth ar ddyletswydd hon aml yn arwain at atal argyfwng yn hytrach na darparu gwasanaethau ataliol. Dywedodd pobl wrthym y byddai'n well ganddynt gael gweithiwr a enwir. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i fynd i'r afael ag**

**amseroedd aros a sicrhau gweithlu cyson a digonol er mwyn lleihau'r angen i bobl gael eu cefnogi gan system ar ddyletswydd**

**2.11** Er bod gwasanaeth taliadau ar waith a werthfawrogir gan unigolion a gweithwyr proffesiynol, clywsom am oedi cyn dyrannu cynghorwyr taliadau uniongyrchol, sy'n gyfrifol am arwain a chynorthwyo unigolion i ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn effeithiol i ddiwallu eu hanghenion gofal neu gymorth. Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb i'r her hon drwy recriwtio cynghorydd ychwanegol. **Dylai'r awdurdod lleol gynnal ei ffocws strategol yn y maes hwn er mwyn sicrhau gwelliant ac effeithlonrwydd parhaus o ran y gwasanaethau a ddarperir.**

**2.12** O blith y 31 o bobl a ymatebodd i'n harolwg, dywedodd 45% wrthym eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt pan fyddant yn cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd 55% o'r ymatebwyr nad oeddent yn teimlo y gwrandewir arnynt o gwbl neu mai dim ond weithiau y gwrandewir arnynt. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu â'r bobl sy'n cysylltu ag ef ac yn ymateb iddynt. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y cynhelir y ffocws ar wella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r bobl sy'n cysylltu ag ef ac yn ymateb iddynt.**

**2.13** Dywedodd rhai gofalwyr wrthym am oedi cyn i'w hanghenion gofal a chymorth gael eu hasesu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff adolygiadau eu cynnal mewn modd amserol er mwyn diwallu anghenion gofalwyr.**

## 3. Atal

### Cryfderau

**3.1** Mae'r uwch-arweinwyr yn sicrhau bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa strategol i ddatblygu ei ddull ataliol, a bod ganddo weledigaeth glir a chynlluniau cadarn i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu dulliau darparu arloesol. Bwriedir i'r modelau hyn wella'r broses o gydlynu cymorth ataliol a chymorth cynnar, gan gynnig mwy o gyfleoedd i unigolion bontio i lefelau is o ofal. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i ail-lunio ac ail-greu ei wasanaethau, gan roi pwyslais penodol ar ddatblygu modelau ataliol.

**3.2** Caiff ymrwymiad yr awdurdod lleol i atal ei gefnogi gan nifer o sefydliadau yn y trydydd sector, gan gynnwys Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe. Fel y sefydliad ambarél ar gyfer gweithgarwch gwirfoddol ledled Abertawe, mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe yn chwarae rôl

allweddol wrth gefnogi, datblygu a chynrychioli sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau. Mae'n cyfrannu at **ymarfer cadarnhaol** ac yn gwella dulliau ataliol yr awdurdod lleol.

**3.3** Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i feithrin partneriaethau cydweithredol â sefydliadau yn y trydydd sector. Gwneir ymdrechion parhaus i ddyrannu adnoddau sy'n cryfhau cymorth cynnar a chymorth ataliol. Siaradodd partneriaid yn y trydydd sector yn frwdfrydig am eu gwaith gyda'r awdurdod lleol i hwyluso canlyniadau llesiant dinasyddion.

**3.4** Nodwyd enghreifftiau o fentrau cymorth cymunedol a gaiff eu datblygu ar y cyd â'r trydydd sector, sy'n hybu llesiant pobl. Mae un fenter o'r fath yn paru unigolion sy'n cynnig ystafelloedd sbâr ac yn barod i gynnig cymorth anffurfiol ag unigolion sy'n chwilio am lety, gan feithrin gwydnwch a hybu llesiant. Mae'n mynd i'r afael â materion allweddol fel tai fforddiadwy, diogelwch cymunedol ac anghenion gofal mewn ffyrdd arloesol. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

**3.5** Deëllir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty ac erys hyn yn flaenoriaeth. Mae'r tîm ysbytai wedi meithrin cydberthnasau cryf ac wedi symleiddio prosesau er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau rhyddhau diogel eu llunio. Clywsom am y gwaith partneriaeth sy'n hwyluso'r broses hon ac yn cyfrannu ati, ac am y mesurau integreiddio sy'n ei chefnogi. Mae'r tîm therapïau integredig, y tîm rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r tîm gofal cartref yn cydweithio, sy'n hyrwyddo proses effeithiol o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

**3.6** Mae nifer o'r timau yn yr awdurdod lleol wedi'u strwythuro i'w galluogi i ddarparu gwybodaeth benodol, arbenigedd a dull amlddisgyblaethol, er enghraifft y Tîm Galluogrwydd Meddyliol, y Tîm Diogelu, y Tîm Anableddau Dysgu, y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Tîm Adnoddau Cymunedol. Rhannodd ymarferwyr sy'n gweithio yn y timau hyn **sylwadau cadarnhaol** am y ffordd y mae'r trefniadau a'r ymrwymiadau hyn yn gwella ansawdd y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl a'u teuluoedd.

**3.7** Gwelsom fod y Gwasanaeth Trechu Tlodi gyda’r awdurdod lleol yn canolbwyntio'n bennaf ar atal anghenion pobl rhag gwaethygu. Gwneir hyn drwy fentrau amrywiol. Mae'r Tîm Hawliau Lles a Chynhwysiant Ariannol a'r cydlynwyr ardal leol yn **enghreifftiau o arfer cadarnhaol** sy'n darparu cyngor a chymorth i bobl ledled Abertawe. Mae'r Gwasanaeth Trechu Tlodi yn cydlynu cyfleoedd am gyllid grant i sefydliadau a grwpiau lleol sy'n cefnogi pobl a chymunedau Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Cymorth i Aelwydydd, y Grant Bwyd Uniongyrchol, Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy, Lleoedd Llesol Abertawe a Men's Sheds.

**Meysydd i'w Gwella**

**3.8** Clywsom am anawsterau wrth gysylltu â'r Pwynt Mynediad Cyffredin. Mae hyn yn arwain at amseroedd aros hir am ymateb dros y ffôn a diffyg negeseuon e-bost dilynol ar ôl yr e-bost cadarnhau cyntaf. Mae data ein harolwg yn cyd-fynd â'r canfyddiadau hyn, wrth i 48% o'r ymatebwyr nodi anawsterau wrth gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol. **Mae'n hanfodol bod y materion hyn yn cael eu goresgyn er mwyn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth, a rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn modd amserol. .**

**3.9** Gwelsom fod rhestrau aros mewn rhai meysydd gwasanaeth. Mae’r sefyllfa hon yn golygu nad yw rhai pobl yn cael y cymorth priodol ar yr adeg gywir. Mae'r oedi cyson cyn asesu anghenion pobl ac adolygu eu gofal yn destun pryder. Rhoddodd yr uwch-aelodau o'r staff sicrwydd i ni fod pobl sy'n aros am asesiad ac adolygiad yn cael galwadau monitro rheolaidd. Mae'r staff yn diweddaru blaenoriaeth y bobl am asesiad gan ddefnyddio sgôr risg coch, melyn neu wyrdd. Mae coch yn cynrychioli achosion â blaenoriaeth uchel, melyn yn dynodi achosion â blaenoriaeth safonol, a gwyrdd yn berthnasol i adolygiadau arferol lle nad oes unrhyw faterion na phryderon. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o'r monitro hwn yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom. Nid yw'r dull hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr awdurdod lleol i waith ataliol, ac mae hyn yn fater y mae'n ei gydnabod ac yn bwriadu mynd i'r afael ag ef wrth ailstrwythuro ei dimau. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod mesurau amlwg ar waith i fynd i'r afael â'r oedi a wynebir ar hyn o bryd cyn cael asesiadau ac adolygiadau. Bydd AGC yn parhau i fonitro sefyllfa'r awdurdod lleol mewn perthynas â rhestrau aros.**

**3.10** Mae'r awdurdod lleol wedi lleihau ei amseroedd aros am gymorth cartref yn sylweddol ers 2022/2023 ac wedi rhoi camau ar waith i reoli'r galw. Mae hyn yn cynnwys comisiynu darparwyr cymorth cartref newydd a sefydlu trefniadau comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r galw am ofal a chymorth yn dal i fod yn fwy na'r hyn y gellir ei ddarparu. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i fynd i'r afael â'r oedi a wynebir ar hyn o bryd cyn cael cymorth cartref.**

## 4. Llesiant

### Cryfderau

**4.1** Mae ymarferwyr yr awdurdod lleol yn gweithio gydag unigolion mewn ffordd sy'n eu grymuso, gan gefnogi dull rheoli risg cadarnhaol a pharchu hawl unigolyn i ddewis. Gwelwyd y dull hwn ar waith ymysg ymarferwyr â lefelau gwahanol o brofiad ac mewn meysydd gwasanaeth gwahanol, gan ddangos **diwylliant cadarnhaol** o reoli risg a ffocws ar gryfhau hawliau unigol.

**4.2** Caiff ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu yr awdurdod lleol eu cynnal o fewn y terfynau amser statudol. Mae tîm dynodedig yn gweithredu fel adnodd i weithwyr proffesiynol, gan gefnogi penderfyniadau cymesur a chofnodion amserol o benderfyniadau allweddol, gyda goruchwyliaeth gadarn gan reolwyr.

**4.3** Caiff gwybodaeth am ddiogelu ei rhannu'n briodol ac yn brydlon pan gaiff pryderon am ddiogelwch a llesiant oedolion eu nodi. Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd amddiffyn plant a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

**4.4** Mae’r awdurdod lleol wedi datblygu dull diogelu yr ymddiriedir ynddo drwy gyfrwng hyb diogelu arbenigol, ymgyngoriadau diogelu, a Thîm Galluedd Meddyliol newydd. Mae'r rhain yn cefnogi prosesau rhannu gwybodaeth, myfyrio ar risg, a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth sy'n grymuso gweithwyr proffesiynol a'r oedolion dan sylw.

**4.5** Mae'r dull cyfathrebu cydweithredol wedi'i ymgorffori'n gadarn yn ethos yr awdurdod lleol. Mae hyn yn helpu ymarferwyr i ddarparu cymorth i unigolion a'u grymuso i nodi eu cryfderau a'u rhwydweithiau eu hunain ac adeiladu arnynt, fel bod modd lleihau cymorth ffurfiol neu ei ddefnyddio lle bo angen yn unig. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

**4.6** Mae rhestr aros am asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, sy'n fater cyffredin mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Er mwyn ymateb i hyn, mae nifer o fesurau a strategaethau yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi rhagor o Aseswyr Budd Pennaf, gan uno'r Timau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a Galluedd Meddyliol o dan un rheolwr, a darparu hyfforddiant i'r sector cartrefi gofal er mwyn sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu gwneud mewn modd priodol ac amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ymatebol ac yn amserol.**

**4.7** Mae ymarferwyr a phobl wedi mynegi pryderon am y galw mawr yn y Tîm Eiddo a Chyllid Cleientiaid. Mae hyn yn achosi oedi cyn cynnal asesiadau ariannol a sefydlu penodeiaethau. Mynegodd ymarferwyr bryderon bod yr oedi hyn yn effeithio ar eu gallu i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ariannol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau ariannol a sefydlu penodeiaethau yn effeithlon. T**

## 5. <u>Partneriaeth</u>

### <u>Cryfderau</u>

**5.1** Cawsom adborth cadarnhaol am waith partneriaeth gan yr unigolion y gwnaethom ryngweithio â nhw yn ystod ein harolygiad. Ar lefel strategol, mae'r uwch-arweinwyr yn cydweithio i fynd i'r afael â heriau ar draws adrannau. Mae swydd y Pennaeth Gwasanaethau Integredig, a ariennir ar y cyd, yn cryfhau'r gwaith partneriaeth ac yn helpu i integreiddio gwasanaethau. Mae hefyd yn darparu trosolwg strategol wrth fonitro pwysau ar draws y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth.

**5.2** Gwelsom ddarpariaeth integredig weithredol aeddfed, lle roedd trefniadau integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn amlwg ar draws timau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr o'r farn bod y model darparu integredig yn gryfder. Clywsom am swyddi a thimau integredig , a gyflogir drwy broses recriwtio integredig, gan rannu un swydd-ddisgrifiad ac arweinyddiaeth. Dywedodd ymarferwyr wrthym am y defnydd cadarnhaol o'r model asesydd dibynadwy i gynnal asesiadau cymesur, er mwyn cefnogi a hwyluso proses amserol a diogel o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

**5.3** Un enghraifft gadarnhaol o'r model cydweithio hwn yw Tŷ Bonymaen, llety preswyl â 28 o welyau. Nod yw cydweithio hwn yw lleihau nifer yr arosiadau hir yn yr ysbyty ond hefyd cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar ailalluogi. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cydweithio â darparwr gofal cartref cofrestredig, gan ddarparu cymorth byrdymor yn y cartref i unigolion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

**5.4** Mae arweinwyr, darparwyr, y trydydd sector, pobl ac ymarferwyr yn cydnabod dull cydgynhyrchu yr awdurdod lleol.  Yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr y buom yn bresennol ynddo, gwelsom rôl hanfodol cydgynhyrchu wrth sicrhau atebion effeithiol o ran gofal. Roedd y dull hwn (a oedd yn ffocws allweddol yn ystod y cyfarfod), yn meithrin ymdeimlad o bartneriaeth rhwng y gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol, gan hyrwyddo gofal wedi'i deilwra a grymuso gofalwyr. Tynnodd un o'r darparwyr a

ymatebodd i'r arolwg dienw sylw at y dull hwn, "*The co-productive approach adopted by Swansea ensures that processes, including assessment, are designed with the involvement of our users. The user's voice lies not just at the heart of any individual process of gathering information and making decisions but also at a structural level in the design of systems, creating an inclusive environment for users, etc. Moreover, a mechanism has been established (the Advocacy Group) that allows for user experiences to be reflected on over time and fed back to the Council as a means of improving its recruitment processes, training priorities, and day-to-day service delivery.*"

**5.5** Gwelsom strategaeth gydgynhyrchu gynhwysfawr ar waith, gan gynnwys pecyn cymorth cydgynhyrchu a siarter cydgynhyrchu. Dywedwyd wrthym am enghreifftiau ymarferol o gydgynhyrchu mewn gwahanol ardaloedd fel paneli cyfweld, cyflwyno tendrau, prosesau gwneud penderfyniadau, prosesau ailstrwythuro, a thaliadau uniongyrchol. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

**5.6** Mae Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe yn **enghraifft o arfer cadarnhaol** mewn perthynas â chydgynhyrchu. Mae'n dwyn ynghyd unigolion y mae tlodi yn effeithio arnynt a phenderfynwyr allweddol, gan feithrin dealltwriaeth a rennir a chamau gweithredu ar y cyd. Mae'r fenter hon yn tynnu sylw at effeithiolrwydd cydgynhyrchu wrth fynd i'r afael â materion cymhleth fel tlodi.

**5.7** Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyd-gadeirio'r Bwrdd Diogelu, gan wella'r cyfathrebu a'r cydweithio. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Integredig yn arwain rhaglen y boblogaeth gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn cyd-gadeirio'r Rhaglen Cymunedau a Phobl Hŷn. Mae'r gwaith yn cyd-fynd â chylch gwaith y ddau fwrdd, gan ddangos cysondeb ac ymrwymiad strategol.

## Meysydd i'w Gwella

**5.8** Dywedodd gofalwyr wrthym fod angen i ymarferwyr yn y Pwynt Mynediad Cyffredin feithrin dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r gwasanaethau trydydd sector sydd ar gael yn y rhanbarth. Dywedodd gofalwyr eu bod weithiau'n gorfod chwilio am wasanaethau eu hunain, hyd yn oed ar ôl cysylltu â'r awdurdod lleol am gymorth. Un o strategaethau allweddol yr awdurdod lleol yw sicrhau bod gwasanaethau ataliol a chymorth cynnar yn Abertawe nid yn unig yn weladwy ond hefyd yn hygyrch ac yn gyfarwydd i'r cyhoedd. Nod y strategaeth hon yw galluogi pobl i gael gafael ar y gwasanaethau hyn yn

annibynnol, heb fod angen iddynt gael eu cyfeirio atynt yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn a sicrhau eu bod yn weladwy i'r cyhoedd. Bydd hyn yn gwella ymwybyddiaeth y gymuned o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u defnydd ohonynt, gan olygu bod y cyhoedd yn fwy hunangynhaliol a gwybodus.**

## 6. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 7. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 25 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain deg.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 8 o bobl sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 39 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, uwch-reolwyr a rheolwyr).
- Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner.
- Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod o fwrdd partneriaeth a chyfarfod strategaeth broffesiynol.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

  Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**8. Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn, Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr arolygiad gwerthuso perfformiad hwn yn Gymraeg.

**9. Diolchiadau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n |

| | |
|---|---|
| | golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |